Papur Briffio 6

Cymunedau

Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 2007

"Mae corff cynyddol o ymchwil sy'n dangos bod pobl ifanc, er nad ydynt yn ymddiddori mewn gwleidyddiaeth blaid leol, yn ymddiddori'n fawr yn y materion sy'n effeithio arnynt hwy a'u cymuned."

Syr Jeremy Beecham

Save the Children
Achub y Plant

Promoting Children's Rights
TROS GYNNAL
Hawliau Plant

NCH CYMRU

NSPCC
Dim mwy o greulondeb i blant. DIM.
Cruelty to children must stop. FULL STOP.

Barnardo's Cymru
RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Cymunedau

Mae Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhoi i blant yr hawl i fwynhau chwarae, hamdden a difyrrwch ac mae Erthyglau 12 a 3 yn rhoi hawl iddynt gael llais mewn materion sy'n ymwneud â hwy. Mae'r erthyglau hyn wedi'u hadlewyrchu yn saith nod craidd y Cynulliad ar gyfer plant.

Beth sydd wedi'i gyflawni ers 2003?

Mae cyllid Cymunedau yn Gyntaf wedi sicrhau rhai canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc o ran cyfleusterau ond, yn y rhan fwyaf o ardaloedd, nid yw wedi'i ddefnyddio i ymdrin yn ddigonol â'r mater o gynnwys plant a phobl ifanc yn eu cymunedau ac ymgynghori â hwy am eu hanghenion. Rydym yn croesawu'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n delio â'r mater hwn.

Mae Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae Llywodraeth y Cynulliad 2006 yn disgrifio'r arweiniad pendant y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi ar lefel genedlaethol i ddatblygu chwarae. O dan y cynllun cyflawni hwn, rydym yn edrych ymlaen at weld llunio canllawiau ar yr hyn yw chwarae o ansawdd da. Rydym yn croesawu'r cyllid oddi wrth y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer chwarae plant a theuluoedd gweithgar ac iach sy'n ychwanegol at y cyllid ar gyfer gweithredu'r polisi chwarae.

Darparwyd arian sefydlu ar gyfer ysgolion bro ac mae AALlau a Continyou wedi cytuno ar weledigaeth ar gyfer eu datblygu. Mae potensial yn y cynllun hwn i gynnwys plant a phobl ifanc yng nghanol eu cymunedau a pheri bod mwy o fannau agored ar gael ar gyfer chwarae a chwaraeon.

Cafwyd buddsoddi parhaus yn y cynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol ers 1999, sydd i'w groesawu, ac, yn fwy diweddar, mewn Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd, sy'n hyrwyddo cyflymderau traffig isel a chamau i greu parthau cartrefi.

Beth yw ein pryderon presennol?

- **Cyfleoedd chwarae a hamdden i deuluoedd ar incwm isel**

Mae ymchwil (Generation 2020) wedi dangos nad yw plant a phobl ifanc yn gallu mwynhau gweithgareddau hamdden a chwarae os nad ydynt yn byw o fewn cyrraedd ar droed i gyfleusterau ac os nad oes ganddynt fynediad i gar teuluol. Nid yw teuluoedd sydd ar incwm isel yn gallu fforddio tocynnau bws, ac mae hynny'n cyfyngu ar fynediad i gynlluniau fel nofio am ddim a'r defnydd o gaeau antur. Yn ogystal â hynny, nid yw plant o'r fath yn cael mynediad i fannau chwarae yn eu cymunedau eu hunain am na roddir llawer o bwys ar gael mannau chwarae lleol. Nid yw teuluoedd ar incwm isel yn gallu fforddio taliadau mynediad i atyniadau teuluol neu ddiwrnodau allan yn ystod y gwyliau ysgol. Cafwyd argyfwng mewn gwasanaethau chwarae ar ôl ysgol pan ddaeth y cymorth oddi wrth y Gronfa Cyfleoedd Newydd i ddiwedd ei gylch tair blynedd. Mae'r cyllid a geir bellach yn dameidiog ac, yn aml, os nad yw teuluoedd ar incwm isel yn cael prydau ysgol am ddim, ni allant dalu cost clybiau ar ôl ysgol.

- **Allgáu plant anabl**

Mewn rhai ardaloedd, nid yw plant sydd ag anableddau'n gallu cymryd rhan mewn cynlluniau yn ystod y gwyliau, yn enwedig cynlluniau awyr agored sydd â mynediad agored, am nad yw eu hanghenion penodol yn cael eu diwallu. Dylid addasu'r ddarpariaeth i sicrhau ei bod yn gynhwysol. Yn ogystal â hynny, mae plant sydd ag anableddau'n cael eu hallgáu o chwarae antur ac nid ydynt yn cymryd rhan mewn cyfleoedd chwarae anffurfiol ar y stryd. Yn aml, ni fyddant yn gallu cael mynediad i gyfleusterau gofal plant a darpariaeth ar ôl ysgol i blant ychwaith, felly maent wedi'u hynysu a'u hallgáu'n gymdeithasol.

- **Bwlio mewn Cymunedau**

Mae plant a phobl ifanc yn rhoi gwybod am fwlio a cham-drin geiriol gan blant eraill ac oedolion yn eu cymunedau. Profir hynny'n benodol gan blant o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, plant sydd ag anableddau a phobl ifanc y gwyddys neu y credir eu bod yn

lesbiaid, yn hoyw neu'n ddeurywiol. Mae bwlio yn y gymuned yn cyfyngu ar allu plant a phobl ifanc i gael mynediad at gyfleusterau yn y gymuned.

- **Effaith Traffig**

Mae'r ymchwil 'Stop Look and Listen' yn disgrifio sut y mae traffig yn cyfyngu ar ddefnydd plant o'u cymuned. Er bod cefnogaeth drwy bolisi i barthau cartrefi, dim ond dau barth cartrefi a sefydlwyd yng Nghymru hyd yn hyn. Cyflwynir mesurau tawelu traffig heb ymgynghori â phlant ac felly, yn aml, nid ydynt yn diwallu anghenion plant sy'n gerddwyr.

- **Plant a phobl ifanc mewn ardaloedd gwledig**

Mae plant a phobl ifanc llai cefnog mewn ardaloedd gwledig yn cael eu hallgáu o lawer o gymunedau oherwydd materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn ogystal â chost gweithgareddau.

- **Ymddygiad gwrthgymdeithasol**

Mae dulliau cosbol o ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn tueddu i stigmateiddio pobl ifanc a'u teuluoedd ymhellach, heb ymdrin â'r achosion a'r problemau sylfaenol y mae'r bobl ifanc hyn a'u teuluoedd yn eu hwynebu. Mae ymchwil a'n hymarfer ein hunain yn dangos bod cynlluniau gwaith ieuenctid da mewn cymunedau'n gallu lleihau'n sylweddol nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydym yn pryderu am y ddyfais "Mosquito" a'r defnydd a wneir ohoni i geisio rhwystro pobl ifanc rhag dod ynghyd.

Argymhellion

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

- Ddarparu cymorth ar gyfer ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn cysylltiad â gweithredu'r strategaeth chwarae er mwyn ategu'r theori bresennol ym maes chwarae plant.
- Darparu cyllid cyson ar gyfer clybiau ar ôl ysgol a chlybiau chwarae gyda'r hwyr a chynlluniau yn y gwyliau.
- Annog awdurdodau lleol i ddatblygu parthau cartrefi a chyfleoedd chwarae ar y stryd ac i gynnal mannau chwarae lleol sy'n ymestynnol i blant.
- Ehangu cynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol i greu llwybrau diogel at gyfleusterau chwarae a chyfleusterau cymunedol.
- Llunio canllawiau ar gyfer gwasanaethau chwarae a hamdden yn y gymuned sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ynghylch sut i ddelio â bwlio yn y gymuned ac ymddygiad ymosodol a brofir gan blant. Dylai hynny gynnwys mecanweithiau i alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn partneriaethau diogelwch cymunedol.
- Sicrhau cyllid sefydlog tymor hir ar gyfer cynlluniau ieuenctid penodol sy'n lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Ariannu mynediad at atyniadau hamdden ac atyniadau dydd i'r teulu i alluogi teuluoedd ar incwm isel i gymryd rhan mewn gweithgareddau teuluol ar benwythnosau ac yn y gwyliau.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i amddiffyn a diogelu plant yn yr holl gyrff sy'n darparu gweithgareddau chwaraeon, hamdden a diwylliant i blant a phobl ifanc.
- Sefydlu arferion mewn cynlluniau adfywio sy'n cael eu hariannu gan y cyhoedd, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, sy'n sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn weithredol ac yn barhaus mewn rhaglenni cymunedol.
- Hyrwyddo a monitro cyfleoedd chwarae a hamdden cynhwysol i blant anabl.
- Ymchwilio i fodelau ymarfer gorau er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc mewn ardaloedd gwledig.

MANYLION CYSWLLT

BARNARDO'S CYMRU
ANDY JAMES, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, POLISI
Ffôn: 01792 463357
E-bost: andy.james@barnardos.org.uk

NCH CYMRU
JAYNE ISAAC, SWYDDOG POLISI CYHOEDDUS
Ffôn: 029 20 222127
E-bost: jayne.isaac@nch.org.uk

NSPCC
SIMON JONES, CYNGHORYDD POLISI CYMRU
Ffôn: 029 20 267000
E-bost: simonjones@nspcc.org.uk

ACHUB Y PLANT
ANNE CROWLEY, UWCH GYNGHORYDD POLISI
Ffôn: 029 20 396838
E-bost: a.crowley@savethechildren.org.uk

TROS GYNNAL
JACKIE MURPHY, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL
Ffôn: 029 20 396974
E-bost: jackie.murphy@trosgynnal.org.uk

Cefnogwyd y papur briffio hwn gan Plant yng Nghymru